

RHYS GRYG (bu farw 1234), a elwir hefyd ' Rhys Fychan '

Enw: Rhys Gryg
Dyddiad marw: 1234
Plentyn: Rhys Mechyll
Plentyn: Maredudd ap Rhys Gryg
Rhiant: Gwenllïan ferch Madog ap Maredudd
Rhiant: Rhys ap Gruffydd
Rhyw: Gwryw
Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
Awdur: Robert Thomas Jenkins

- gweler y ddau enw arno ym molawd 'Prydydd y Moch' (Llywarch ap Llywelyn) iddo, *The Myvyrian Archaeology of Wales*, i, 292-4; pedwerydd mab yr Arglwydd Rhys o Wenllïan ferch Madog ap Maredudd o Bowys. Dyn anystywallt oedd Rhys, a wrthryfelodd yn erbyn ei dad ac a chwaraeodd y ffon ddwybig rhwng ei frodyr a rhwng Llywelyn Fawr a'r brenin John. Nid nad oedd yn rhyfelwr dewr ddigon, ond ni ellir canfod unrhyw gysondeb yn ei weithrediadau namyn crafangu a fedrai i'w; ddwylo ei hunan - gellir olrhain ei smudiadau trwy ddefnyddio'r fynegai i Lloyd, *A History of Wales*. O 1215 bu'n weddol gyson yn ei ymlyniad wrth Llywelyn Fawr (a'i cadarnhaodd, yng nghytundeb Aberdyfi yn 1216, yn y meddiant o'r rhan fwyaf o'r Cantref Mawr a'r Cantref Bychan, a chymydau Cydweli a Charnwyllion); a than faner Llywelyn bu'n difrodi'n afieithus gestyll Normanaidd yn Neheudir Cymru. Clwyfwyd ef yn farwol yn un o'r cyrchoedd hyn - y cyrch ar gastell Caerfyrddin yn 1234 - a bu farw yn Llandeilo Fawr. Claddwyd ef yn Nhyddewi; y mae awdl farwnad iddo yn *The Myvyrian Archaeology of Wales*, i, 543, a briodolir yno i Ddewi Mynyw neu i Lywarch 'Brydydd y Moch' - ond ar y t.i, 384 priodolir yr un awdl i'r Prydydd Bychan.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Ardulll APA



Jenkins, R. T., (1953). RHYS GRYG (bu farw 1234), a elwir hefyd ' Rhys Fychan '. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Medi 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-RHYS-GRY-1234>

Y Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn eiddo gan
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government